



3/18 Eagle Wing
Temple Quay House
2 The Square
Bristol, BS1 6PN

Gwasanaethau 0303 444 5000
Cwsmeriaid:

e-bost: wrexhamerergy@pins.gsi.gov.uk

Wrexham Power Limited
Park Point
17 High Street
Longbridge
Birmingham
B31 2UQ

Eich Cyf:

Ein Cyf: EN010055

Dyddiad: 13 Ebrill 2016

Annwyl Mr Cradick

Deddf Cynllunio 2008 (fel y'i diwygiwyd) - Adran 55

Cais gan Wrexham Power Limited am Orchymyn yn Rhoi Caniatâd i Ddatblygu ar gyfer Canolfan Ynni Wrecsam

Hysbysiad o benderfyniad i dderbyn cais am archwiliad ar gyfer gorchymyn sy'n rhoi caniatâd i ddatblygu

Cyfeiriaf at y cais uchod am orchymyn sy'n rhoi caniatâd i ddatblygu a wnaed o dan adran 37(2) Deddf Cynllunio 2008 (fel y'i diwygiwyd), ac a dderbyniwyd gan yr Arolygiaeth Gynllunio ar ran yr Ysgrifennydd Gwladol ar 18 Mawrth 2016.

Mae'r Ysgrifennydd Gwladol wedi penderfynu derbyn y cais hwn am archwiliad. Wrth ddod i'r penderfyniad hwn, mae'r Ysgrifennydd Gwladol:

- o ran adran 55(3)(e), wedi ystyried y materion a restrir yn adran 55(4), a daeth i'r casgliad fod yr ymgeisydd wedi cydymffurfio â Phennod 2, Rhan 5 Deddf Cynllunio 2008; ac
- o ran adran 55(3)(f), wedi ystyried i ba raddau y cydymffurfiwyd â'r materion hynny a restrir yn adran 55(5A) neu y'u dilynwyd, a daeth i'r casgliad fod y cais (gan gynnwys atodion) o safon foddhaol.

Byddwch yn ymwybodol o'ch dyletswyddau o dan:

- adrannau 56, 58 a 59 Deddf Cynllunio 2008;
- Rheoliadau 8, 9 a 10 o Reoliadau Cynllunio Seilwaith (Ceisiadau: Ffurflenni a Gweithdrefn Ragnodedig) 2009 (fel y'u diwygiwyd); a
- Rheoliad 13 o Reoliadau Cynllunio Seilwaith (Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol) 2009.

Yn gywir

Simone Wilding

Simone Wilding

Pennaeth Rheoli Achosion Seilwaith Cenedlaethol

Ar gyfer ac ar ran yr Ysgrifennydd Gwladol dros Gymunedau a Llywodraeth Leol

Gellir rhoi cyngor am wneud cais am gydsyniad datblygu neu wneud sylwadau ynglŷn â chais (neu gais arfaethedig). Fodd bynnag, nid yw'r ohebiaeth hon yn gyngor cyfreithiol y gallwch ddibynnu arno a dylech chi gael eich cyngor cyfreithiol a phroffesiynol yn ôl y gofyn.

Caiff cofnod o'r cyngor a ddarperir ei gofnodi ar wefan yr Arolygiaeth Gynllunio ynghyd ag enw'r unigolyn neu'r sefydliad a ofynnodd am y cyngor. Caiff preifatrwydd unrhyw wybodaeth bersonol arall ei amddiffyn yn unol â'n Siarter Gwybodaeth a dylech fwrw golwg drosti cyn anfon gwybodaeth i'r Arolygiaeth Gynllunio.